**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 16/01/2020**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Dymunodd y Cadeirydd sef y Gyngh. Angharad Jones cyfarchion Blwyddyn Newydd Dda wrth groesawi holl yn bresennol i'r Cyfarfod

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones; Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Gareth Owen (Dirprwy-Cadeirydd); Y Cyngh. Alun Price-Jones, Y Cyngh. Doug Rowbotham; Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies; Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans & Eleri Thomas (Clerc).

**3. YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Y Cynghorydd John Jones, Y Cynghorydd Non Jones a'r Cyngh. Wil Lewis.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Adroddodd SCC yr Heddlu John Evans fod y misoedd diwethaf wedi bod yn dawel.
Dygwyd coed tân o leoliad o fewn y pentref.
Ymosodwyd ar unigolyn yn y Llew Coch.
Trafodwyd potsio ysgyfarnogod yn yr ardal yn ddiweddar.
Ni adroddwyd byrgleriaeth ac ymosodiadau pellach.

**5. DATGANIAD DIDDORDEB:** Dim wedi'i ddatgan.

**6. CADARNHAU CYFARFOD O'R 21AIN TACHWEDD 2019**
**CYNIGIWYD, EILIWYD a PHENDERFYNWYD yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod yr 21ain o Dachwedd 2019, yn gywir a llofnodwyd fel cofnod cywir gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Angharad Jones arwahan i'r canlynol:**

6.1 "Cofnod 6 – Cadarnhad o'r Cyfarfod o'r 17eg Hydref. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Claire Hughes……..". Dylai ddarllen "Clare"

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Gosod Praesept y Cyngor Cymuned 2020-21:** Trafodwyd Adroddiad y Gyllideb (Atodiad 1). Cynrychiola'r Praesept y Cyngor Cymuned cyfran fechan cyfanswm y Dreth Gyngor a gasglwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn flynyddol. Er engrhaifft, ar gyfer y flwyddyn 2019-20, cyfanswm tâl Band D (canolbris) o £1,583.95 ar gyfer Trethdalwr Cyngor ym Mhontrhydfendigaid/Ffair Rhos oedd: Cyngor Sir Ceredigion £1,312.33; Heddlu Dyfed-Powys £248.56; Cyngor Cymuned Ystrad Fflur £23.06.
Mae Praesept y Cyngor Cymuned wedi aros yr un peth yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, sef £7,140.70. Yn ystod 2018-19 talodd y Cyngor Cymuned am adnewyddu'r Gofeb Ryfel (£1,995); Prynu 2 fainc ar gyfer y pentref (£1,062); rhodd o (£500) ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2020 Tregaron. Yn ystod y flwyddyn y mae'r Cyngor Cymuned wedi cwrdd â'r gost am dorri gwair y pentref sef £1,230, arolwg Parc Pantyfedwen a'r atgyweiriadau angenrheidiol, prynu arwydd cyflymder ar gyfer ee Ffair Rhos; cynnal safle ar y we'r Cyngor Cymuned a thalu am oleuadau stryd; gwnaethpwyd cyfraniad ariannol i Ffair y Ganolfan; trefnwyd mewn rhan a chymerwyd rhan yng Ngwasanaeth Sul y Cofio; gosodwyd mewn lle a chynnal a chadw gwelyau blodau ar fynedfeydd y Pentref; talwyd aelodaeth Un Llais Cymru sy'n cynnig cyngor cyfreithiol; glynwyd wrth Bolisi Dwyieithog y Cyngor Cymuned; talwyd am gostau

etholiadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Cymuned & rhoddwyd sylwadau ar Geisiadau Cynllunio.
Derbyniwyd 2 gynnig ynghylch lefel y Praesept ar gyfer y flwyddyn 2020-21

1. Cadw ar yr un lefel sef £7,140.70 **3 DROS (4 ERBYN)**
2. Codi 1% sef £71.41 neu £0.23 y flwyddyn ar gyfer Treth Dalwr y Cyngor Band D: **4 DROS (3 YN ERBYN).** Cariwyd y Cynnig hwn.

£7,212.12 yw Praesept Cyngor Cymuned Ystrad Fflur ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.

**7.2** **Glan-yr-Afon:** parthed tanc olew, nododd ymateb gan G.S. Ceredigion nad oedd y tir a leolwyd y tanc arno, ar dir comin cofrestredig ac ni ellid canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg trwy'r ardal. Nid oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir. Cyfrifoldeb perchennog /rheolwr y tir yw trefnu gwaredu â'r tanc olew a thrafod materion tresmasu os dymunir. Bydd y Gyngh. Clare Hughes yn gofyn i Mr Tom Gilbert os yw'r tanc wedi'i dynnu o'r ardal.

**7.3** **Coed sy'n tyfu yn agos i brif bont, Glan-yr-Afon**: mater mewn llaw gyda'r Cynghorydd Doug Rowbotham.

**7.4** **Aelodaeth Pwyllgorau'r Pentref:** Llywodraethwyr Ysgol: Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Angharad Jones: dim adroddiad.
**Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen:** Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned: y Cynghorydd Laura Jones: dim adroddiad.
**Ymddiriedolaeth Mynwent yr Eglwys**: Cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned: y Cynghorydd Angharad Jones; Y Cynghorydd Gareth Owen: dim adroddiad.
**Ymddiriedolaeth Pantyfedwen:** Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned: y Cynghorydd Mair Jones: dim adroddiad.
**Cyfarfodydd Chwarterol Un Llais Cymru:** Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned: y Cynghorydd Laura Jones: dim adroddiad.

**7.5** **Cinio Blynyddol:** Cytunwyd i'w gynnal ar Dydd Sadwrn 15fed Chwefror 2020 (gyda'r nos) yn TeifiInn, Ffair Rhos.
**CYTUNWYD:** Y Cynghorydd Clare Hughes i drefnu.

**7.6** **Ymateb CS Ceredigion ynghylch cais y Cyngor Cymuned (trigolion Penrhiw) i osod drych ger Penrhiw, Ffair-Rhos:** *Derbyniwyd cais am ddrych yn y lleoliad hwn yn y gorffennol. Mae angen caniatâd arbennig gan Lywodraeth Cymru er mwyn gosod drychau traffig ar briffyrdd cyhoeddus yng Ngheredigion. Dim ond ceisiadau am ddrychau traffig ar gyffyrdd y mae Cyngor Sir Ceredigion yn eu hystyried, ac ni ellir awdurdodi na gosod drychau ar fynedfeydd preifat. Mae'n rhaid i'r cyffyrdd fodloni meini prawf llym sy'n cynnwys anhawster difrifol o ran gweld y ffordd a hanes o wrthdrawiadau a achosodd anafiadau personol oherwydd diffyg gwelededd. Mae hyn yn rhannol oherwydd credir bod drychau traffig yn peri eu risgiau diogelwch eu hunain, gan gynnwys:*

- *gallant dynnu sylw gyrwyr oddi ar gerddwyr a beicwyr sy'n mynd heibio;*
- *oherwydd siâp y drych, mae'n anodd barnu cyflymder a phellter traffig sy'n agosáu;*
- *gall y drych adlewyrchu golau'r haul a goleuadau cerbydau, gan ddallu gyrwyr;*
- *gall amodau tywydd (e.e. glaw, eira neu niwl) gael effaith ar effeithiolrwydd drych y mae gyrwyr yn dibynnu arno.*

*Gellir gosod drychau ar dir preifat gyda chaniatâd perchennog y tir; fodd bynnag, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio hefyd a gellir cael gwared ohonynt os credir eu bod yn peri perygl i ddefnyddwyr y briffordd. Bydd drychau sydd wedi'u gosod o fewn terfynau priffyrdd heb ganiatâd Llywodraeth Cymru yn debygol o gael eu gwaredu, a'r rheini sy'n gyfrifol am eu gosod fydd yn gyfrifol am dalu'r gost. Mae'n bosib hefyd y bydd y rheini sy'n gyfrifol am osod*

*drych heb ganiatâd yn atebol am unrhyw ddifrod a/neu anaf y mae'r drych wedi cyfrannu tuag ato.*

*Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw gofnod o wrthdrawiadau a achosodd anafiadau personol wrth y gyffordd yn Ffair-Rhos o fewn y 5 mlynedd diwethaf, felly mae'n debygol iawn y byddai unrhyw gais i Lywodraeth Cymru yn methu â bodloni rhan o'r meini prawf sylfaenol.*

## 8. GOHEBIAETH

### 8.1 DIWRNOD BUDDUGOLIAETH EWROP: 8FED O FAI 2020: CYFLE UNIGRYW I DALU TEYRNGED I GYFRANIAD MERCHED YN YSTOD DYDDIAU TYWYLL YR AIL RYFEL BYD

Mae Diwrnod Buddugolaeth Ewrop yn rhoi cyfle arbennig i dalu teyrnged i'r miliynau o fenywod a gyfrannodd gymaint at ymdrech y rhyfel yn ystod 1939-45.

Fel rhan o'r dathliadau, bydd pedair merch ifanc yn dringo'r 4 copa uchaf y Deyrnas Unedig – Ben Nevis, yr Alban, yr Wyddfa, Cymru; Scafell Pike, Lloegr a Slieve Donard, Gogledd Iwerddon. Pan fydd pob un ohonynt yn cyrraedd y copa o'u dewis am 3pm ar yr 8fed o Fai 2020 codir gwydr y Genedl i Arwyr yr Ail Ryfel Byd ar ran menywod ledled y byd. Dyma fydd y tro cyntaf i ymgymeriad o'r fath.

Mae cymunedau ledled Cymru am annog menywod yn eu cymunedau i dalu teyrnged bersonol i'w cyndeidiau dewr gan godi gwydraid neu luniaeth arall o'u dewis a chynnig Tost y Genedl i Arwyr yr Ail Ryfel Byd mewn lleoliad o'u dewis am 3pm ar yr 8fed o Fai 2020. Mae'r digwyddiad hwn hefyd yn rhoi cyfle unigryw i gymunedau Cymru gynnwys y gwahanol gartrefi i'r henoed mewn cymunedau lleol hefyd, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r dathliadau ar yr 8fed o Fai 2020.

Cynhelir Diwrnod Buddugoliaeth Ewrop 75, dros benwythnos 8fed-10fed Mai 2020 a bydd yn ddathliad o heddwch, amser i gofio, myfyrio a thalu teyrnged i'r miliynau o bobl a chwaraeodd ran mor hanfodol. Mae hyn yn cynnwys personel, y lluoedd arfog o wledydd lawer a rhoddodd eu bywydau neu a anafwyd yn gorfforol ac yn feddyliol; y menywod a'r dynion gweithgar a gadwodd y ffatrioedd; y pyllau glo, yr iardiau llongau a'r ffermwyr; wardeniaid yr ARP, Swyddogion Heddlu; meddygon, nyrsys, dynion tân, gwirfoddolwyr amddiffyn lleol a llawer o rai eraill a ddiogelodd y ffrynt cartref.

**8.2** **Cyngor Tref y Bala i gychwyn ar nifer o brosiectau sy'n gweithio gyda phlant a phobl** ifanc yn y dref a gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned i gynnig cyngor. Nodwyd er gwybodaeth.

**8.3** **Trafnidiaeth Cymru**: wedi rheoli ailgyhoeddi tocynnau bws am ddim ledled Cymru ar ran y 22 Cyngor Lleol yng Nghymru. Mae tua 750,000 o docynnau bws yng Nghymru a daeth y cardiau lliw gwyrdd cyfredol i ben ar y 31ain Rhagfyr 2019 a heb fod yn ddilys ar ôl y dyddiad hynny. Ers Medi 2019 mae Trafnidiaeth Cymru wedi codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau. Gallai deiliaid cardiau fod wedi gwneud cais ar-lein www.tfw.wales/travelcards neu drwy bapur, ei lawrlwytho o safle ar y we Trafnidiaeth Cymru neu ei gasglu gan y cyngor lleol. Gellid gofyn am gopi post trwy ffonio'r llinell gymorth 0300 303 4240.

**8.4** **Un Llais Cymru:** Gwahoddiad i'r Cadeirydd a chymar i gael eu cynnwys yn y raffl ar gyfer Parti Gardd Palas Buckingham, dyddiad cau ceisiadau 31ain Ionawr 2020. Cytunwyd i beidio â derbyn y gwahoddiad.

**8.5** **Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Cyflog y Clerc:** Tachwedd / Rhagfyr 2019: £193.83 x2 (Cyflog Gross).

**9.2 Coed y Bont:** yn ystyried ceisio am grant o £500 dan law'r Cyngor Cymuned. Y Cyng. Ifan Lloyd Davies i drafod ymhellach â Mr C. Harris.

**9.3 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir. *Yn disgwyl taliad.*

**9.4 Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfod y dyfodol.

**9.5 Cyngor Sir Ceredigion: Goleuadau Stryd:** Costau ynni am oleuo golau stryd rhwng canol nos a 5am, ar gais y Cyngor Cymuned o'r 1af Ebrill 2019 i'r 31ain Fawrth 2020. £416.95.

**9.6 Llythyr dan law Grŵp Te, Pontrhydfendigaid:** yn gofyn am gymorth ariannol: i egluro bod y Cyngor Cymuned wedi cytuno'n ystod cyfarfod misol Ionawr 2019 i beidio a gwneud cyfrniadau ariannol 4 x £50 yn ystod Mawrth 2019 a Mawrth 2020.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**10.2 Ymgynghoriad Cynllunio: A190989:** Ymgeisydd: I. Arch. Lleoliad: Tir Mynachlog Fawr; Pontrhydfendigaid. Y Bwriad; Adeiladu Annedd a Garej Menter Wledig. Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

**10.3 Ymgynghoriad Cynllunio: A200007**: Lleoliad: Rock House, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig, SY25 6BL. Cynnig: Codennau gwersylla newydd. Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Mae'r Cyngor Cymuned yn mynegi consyrn diogelwch mewn perthynas â'r cynnydd mewn traffig a ragwelir yn ardal Rock House ac yn gwrthdaro ag amcanion y Prosiect Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Golau Stryd LED ar Brif Bont y Pentref: llai o olau'n disgleirio o gymharu â'r goleuadau cynt.** I ofyn am esboniad gan Gyngor Sir Ceredigion.

**11.2 3 Twll yn amlwg ar y briffordd ger Neuadd Pantyfedwen**: I adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**11.3 Llys Teg: rhan o garth y cerbyd yn tresmasu ar y palmant** a pheryglu diogelwch defnyddwyr y palmant. Mynegwyd pryder hefyd mewn perthynas â gwrthdroi I'r briffordd. Y Cyngh. Ifan Lloyd Davies i geisio cyngor Arolygiaeth Gynllunio Cymru.

**11.4 Ffair Rhos:** angen sylw ar y daliwr blodau a thrwsio mainc: I hysbysu'r Cyngh. John Jones.

**11.5 Penderfynwyd cysylltu â Phwyllgor y Neuadd** i ddarganfod a fyddai'n bosibl i blannu coeden Nadolig ar dir Neuadd Pantyfedwen.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 8.40 pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 20fed Chwefror 2020 am 7pm.**

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)